Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Claire Marchant
Cyfarwyddwr Corfforaethol Llesiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Dyddiad: 23 Medi 2026

Annwyl Claire Marchant

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 13 ac 18 Gorffennaf 2026. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- **Pobl – llais a rheolaeth**
  Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddo?

- **Atal**
  I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?

- **Llesiant**
  I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed*?*

- **Partneriaeth**
  I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ac mae'n dangos ymrwymiad cryf i ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, llesiant a chanlyniadau cadarnhaol.

3.2 Mae'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn elwa ar gymorth corfforaethol cryf, buddsoddiad cynaliadwy a llywodraethu effeithiol. Mae model gweithredu clir yn cefnogi prosesau gweithio integredig ac ymdrechion i drawsnewid gwasanaethau mewn ymateb i'r galw cynyddol.

3.3 Caiff y rhan fwyaf o bobl gymorth i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau drwy gael cynnig cyson o wasanaethau eirioli ac amrywiaeth arloesol o wasanaethau atal ac ymyriadau cynnar. Mae partneriaethau cymunedol, gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg a mentrau lleol yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.

3.4 Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder arwyddocaol. Mae trefniadau integreiddio aeddfed, gan gynnwys timau amlddisgyblaethol wedi'u cydleoli, cytundebau Adran 33[1], yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) a gwaith partneriaeth â Charchar y Parc, yn cefnogi ymatebion cydlynol ac effeithiol i anghenion cymhleth a phryderon diogelu.

3.5 Mae'r trefniadau diogelu wedi'u hymsefydlu'n gadarn, gyda'r staff a'r partneriaid yn hyderus bod oedolion sy'n wynebu risg yn cael ymatebion amserol a chymesur. Mae ffocws parhaus ar sicrhau ansawdd, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau yn darparu llwyfan cryf ar gyfer cynnydd parhaus.

3.6 Mae'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau a'r bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn rhoi pwysau parhaus ar wasanaethau; a gall heriau o ran recriwtio, cadw staff, salwch ac absenoldeb effeithio ar wydnwch gwasanaethau a'r gallu i'w darparu.

3.7 Canfu'r arolygwyr fod ansawdd asesiadau ac adolygiadau yn amrywio. Mae angen mwy o gysondeb wrth gofnodi llais a dewis pobl ac wrth sicrhau bod adolygiadau'n parhau i fod yn gymesur, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn ymatebol i anghenion sy'n newid.

3.8 Mae heriau sy'n ymwneud â llwybrau, atal a chymorth i ofalwyr yn rhan o gynlluniau parhaus awdurdodau lleol i wneud gwelliannau parhaus. Mae'r arweinwyr yn nodi'r problemau ac yn rhoi cynlluniau ar waith a ddylai gyflawni manteision amlwg i bobl ac ymarferwyr.

---

[1] Cytundebau ffurfiol wedi'u hanelu at rannu adnoddau a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal.

3.9 Ar y cyfan, mae arweinyddiaeth effeithiol, gweithlu ymroddedig, partneriaethau cryf, a chyfeiriad strategol clir i'w gweld yn yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn darparu sylfaen gadarn i wella arni. Fodd bynnag, rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod cynlluniau gwella yn cyflawni gwelliannau amserol a mesuradwy o ran profiadau a chanlyniadau pobl, yn enwedig o ran gwydnwch y gweithlu, arferion asesu ac adolygu, cymorth i ofalwyr, a llwybrau gofal a chymorth.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Pobl

<u>**Cryfderau**</u>

4.1 Mae'r gweithlu'n dangos ymrwymiad ac ymroddiad proffesiynol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl. Mae'r staff yn gweithio mewn amgylcheddau tîm cefnogol a chydweithredol lle mae'r rheolwyr yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer myfyrdod proffesiynol, dysgu a datrys problemau ar y cyd.

4.2 Mae trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu aelodau newydd o'r staff i fagu hyder yn eu rolau, ac mae amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu yn cefnogi twf parhaus sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer. Roedd y staff yn gadarnhaol wrth sôn am y cymorth maent yn ei gael gan gydweithwyr a rheolwyr.

4.3 Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu model ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n cael ei ddeall yn dda gan y staff a'r partneriaid integredig. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos rhywfaint o hyder mewn arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae llawer o'r ymatebwyr (73%) yn cytuno bod y bobl yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth.

4.4 Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth yn hyrwyddo ffocws ar gydgynhyrchu a chyflawni 'yr hyn sy'n bwysig'. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol wrth sôn am hygyrchedd ac ymatebolrwydd yr uwch-arweinwyr a gwnaethant ddisgrifio sut mae deialog barhaus wedi cryfhau ymddiriedaeth, sicrwydd a hyder ym maes gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.

4.5 Mae gan yr awdurdod lleol gyfeiriad strategol clir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion drwy gynllun strategol cadarn dros dair blynedd a model gweithredu diwygiedig. Caiff y trefniadau llywodraethu eu mynegi'n glir ac maent yn llwyddo i oruchwylio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion

a threfniadau integredig cysylltiedig yn effeithiol, gan alluogi arweinwyr i fonitro perfformiad, rheoli risgiau ac ysgogi gwelliannau.

4.6 Ceir cymorth corfforaethol da ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion drwy fuddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau statudol ac ataliol, gan gynnwys datblygu swyddi newydd. Mae buddsoddi wedi targedu'r meysydd mwyaf o angen er mwyn gwella capasiti'r gweithlu a galluogi arloesedd, camau atal a chamau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy er gwaetha'r pwysau cynyddol.

4.7 Mae gwasanaethau eirioli'n chwarae rhan bwysig wrth helpu'r awdurdod lleol i gasglu barn a phrofiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u deall, gan gyfrannu at weithgareddau i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Caiff gwasanaethau eirioli eu hystyried ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, a gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r gwasanaethau hyn yn helpu pobl i gymryd rhan mewn prosesau diogelu, gan gynnwys defnyddio Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCAs) lle y bo'n briodol. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

4.8 Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan amlwg o'r ymarfer, a gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ymarferwyr yn ystyried anghenion diwylliannol ac anghenion cyfathrebu'r gymuned deithiol, grwpiau crefyddol, a phobl ag anabledd. Yn yr enghreifftiau gorau, gwelsom ymarferwyr yn addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion yn well, gan gynnwys defnyddio cipluniau a chofnodion ar ffurf darluniau.

4.9 Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n briodol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ac mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod pobl yn cael y cynnig rhagweithiol i gael gwasanaethau yn Gymraeg. Disgwylir i staff gadarnhau a chofnodi dewisiadau iaith pobl yn rheolaidd, ac mae'r ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn helpu i sicrhau y gall pobl gael gwasanaethau yn Gymraeg.

**Meysydd i'w Gwella**

4.10 Mae capasiti'r gweithlu, trosiant staff ac absenoldeb oherwydd salwch yn effeithio ar lesiant staff a pharhad cymorth i bobl. Nododd y staff hefyd heriau yn ymwneud â'r cymysgedd sgiliau a newidiadau o ran rheolwyr; ond mae gan yr awdurdod lleol ddarpariaeth dda ar gyfer llesiant a byddai 75% o'r staff yn dal i argymell gweithio i'r awdurdod lleol. **Mae'r arweinwyr yn cryfhau prosesau recriwtio, prosesau cadw staff a llesiant y gweithlu drwy fwrdd arweinyddiaeth y gweithlu a dylent barhau i ganolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu a sicrhau llesiant y gweithlu.**

4.11 Mae'r arweinwyr wedi datblygu fforymau strwythuredig i ymgysylltu â rheolwyr a thimau ynghylch datblygiadau i wasanaethau; ac mae gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol ar gael i gefnogi trefniadau arweinyddiaeth. Er bod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi cymorth eu rheolwyr, soniodd rhai aelodau o'r staff gweithredol fod eu profiad o arweinyddiaeth strategol fel rhan o'r ymarfer rheng flaen yn wahanol. Cafwyd adborth cymysg hefyd gan reolwyr ynglŷn â'u morâl a'u llesiant. **Dylai'r uwch-arweinwyr barhau i gryfhau fforymau presennol er mwyn cynnwys staff wrth ddatblygu gwasanaethau a gweithio gyda rheolwyr tîm a thimau i wella eu cymorth a'u llesiant.**

4.12 Er bod yr arolygwyr wedi canfod enghreifftiau o ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda phobl i nodi beth sy'n bwysig iddynt ac adeiladu ar gryfderau unigol, nid yw'r dull hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y gwasanaeth. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i wella'r defnydd cyson o'i fodel sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn sicrhau bod asesiadau a chynlluniau gofal yn cael eu cydgynhyrchu gydag unigolion, eu bod yn adlewyrchu'n glir yr hyn sy'n bwysig iddynt, ac yn nodi canlyniadau mesuradwy sy'n cefnogi annibyniaeth, llesiant a newid cadarnhaol.**

4.13 Nid yw'r cofnodion bob amser yn dangos yn glir sut caiff safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unigolion eu clywed a'u hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau. Mae safonau clir wedi'u nodi yn y polisi cofnodi ac mae sesiwn friffio 7 munud o hyd ar gael i helpu'r staff i gofnodi'r safonau y mae'r awdurdod lleol wedi'u pennu. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i adolygu arferion cofnodi a sicrhau y caiff y safonau y cytunwyd arnynt eu rhoi ar waith yn gyson.**

4.14 Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (78%) eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Mae prosesau goruchwylio yn helpu wrth wneud penderfyniadau, rheoli llwyth gwaith a sicrhau llesiant y staff, gydag enghreifftiau cadarnhaol o arferion seiliedig ar gryfderau ac arferion systemig i'w gweld yn amlwg ar draws gwasanaethau. Fodd bynnag, canfu'r arolygwyr nad oedd y penderfyniadau a'r camau y cytunwyd arnynt yn dilyn sesiynau goruchwylio bob amser yn cael eu cofnodi ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a oedd yn cyfyngu ar brosesau goruchwylio a'r gallu i sicrhau bod camau dilynol yn cael eu cymryd. Roedd y cyfleoedd i ddefnyddio prosesau goruchwylio i annog unigolion i ddysgu, i ddatblygu ac i ymarfer mewn ffordd fyfyriol yn amrywio hefyd. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r broses o gofnodi prosesau goruchwylio a rhoi mwy o ffocws ar ddysgu, datblygu ac ymarfer myfyriol.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.15 Daw pob ymholiad newydd am wasanaethau cymdeithasol i oedolion drwy'r hwb Atal ac Ymyrryd yn Gynnar. Mae'r gwasanaeth tymor byr integredig hwn yn helpu i nodi anghenion yn gynnar, gan gefnogi ymyriadau cymesur a

chyfleoedd cynyddol i bobl dderbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae'r ffaith bod cymorth amlddisgyblaethol ar gael – gan gynnwys therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, cymorth fferyllol, gwaith cymdeithasol a gwasanaethau cymorth gartref – yn sicrhau cynnig sy'n canolbwyntio ar ail-alluogi sy'n lleihau dibyniaeth ar wasanaethau hirdymor ac yn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

4.16 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu amrywiaeth gadarn o wasanaethau ataliol yn y gymuned, gan gynnwys hybiau cymunedol, Cydgysylltwyr Cymunedol Lleol, Swyddogion Llywio Cymunedol BAVO, gwasanaethau diwylliannol Awen a rhaglenni Hamdden Halo. Mae cynnwys gwasanaethau diwylliannol, hamdden a llesiant cymunedol yn y portffolio gwasanaethau cymdeithasol ehangach yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** sy'n cefnogi llesiant pobl ac yn helpu i atal neu ohirio'r angen am ymyriadau statudol mwy dwys.

4.17 Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi buddsoddi mewn technoleg gynorthwyol, teleofal, cymhorthion ac addasiadau, gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg, a mentrau fel y prosiect o'r gwely i'r gadair i helpu pobl i aros yn ddiogel gartref. Mae'r trefniadau hyn yn dangos ymrwymiad clir i hyrwyddo cymorth yn y gymuned a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol lle y bo'n briodol. Mae cyfle bellach i adeiladu ar y cryfderau hyn drwy fapio a chydlynu’r ddarpariaeth atal ymhellach, gwella ymwybyddiaeth a llwybrau mynediad, a sicrhau y gall pobl a gweithwyr proffesiynol bob amser nodi'r cymorth mwyaf priodol a chael gafael arno cyn gynted â phosibl.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.16 Er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi nodi cyfathrebu cadarnhaol rhwng timau, canfu'r arolygwyr heriau parhaus yn ymwneud â llwybrau a systemau cofnodi ar draws sefydliadau. Gall effeithiolrwydd cydweithio ddibynnu ar gydberthnasau unigol a cheir rhywfaint o ymarfer amrywiol, achosion o ddyblygu ac oedi wrth ddiwallu anghenion. Mae'r arweinwyr yn datblygu cynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth atal a'r llwybrau at gymorth. **Dylai'r arweinwyr sicrhau y caiff gwelliannau eu cyflawni'n brydlon a'u bod yn arwain at welliannau amlwg.**

4.17 Dim ond 42% o'r staff a holwyd a oedd yn teimlo bod digon o amrywiaeth o wasanaethau ar gael i ddiwallu anghenion pobl ac, er bod y ddarpariaeth atal yn gadarnhaol ar y cyfan, nodwyd rhai bylchau. Tynnodd yr adborth sylw at rai pryderon yn ymwneud â mynediad at ddarpariaeth seibiant a phwysau o ran capasiti yn y gwasanaethau therapi galwedigaethol. Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu'r ddarpariaeth gofal seibiant sydd ar gael i ofalwyr ac mae ganddo gynlluniau cadarnhaol i ddatblygu'r farchnad a gwella digonolrwydd therapi galwedigaethol. **Dylai'r arweinwyr sicrhau bod y datblygiadau hyn yn arwain at sefyllfa lle bydd pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir yn gyson.** Dylai hyn gynnwys ffocws clir ar ddatblygu systemau sy'n ymateb i

anghenion ac yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl a gofalwyr.

4.18 Roedd y rhan fwyaf o adolygiadau yn amserol ac yn cael eu cwblhau yn unol â'r gofynion statudol, ond gall ansawdd adolygiadau a'r dull o'u cynnal amrywio ar draws timau. Mae llawer yn dangos tystiolaeth o gydgynhyrchu cryf a chyfranogiad amlasiantaethol. Byddai nifer bach yn elwa ar ffocws gwell ar ganlyniadau, cofnodi llais a dewis pobl, ac ar gryfhau'r trefniadau ar gyfer gwaith amlasiantaethol. Mae'n arbennig o bwysig bod adolygiadau'n ystyried dyletswyddau statudol fel taliadau uniongyrchol, eiriolaeth, asesiadau gofalwyr a galluedd meddyliol lle bo hyn yn berthnasol. **Er bod rhywfaint o hyblygrwydd yn briodol, dylai'r awdurdod lleol bennu safonau gofynnol clir i sicrhau bod adolygiadau'n gymesur, yn cynnwys pobl a gofalwyr yn gyson, yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion sy'n newid yn gynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu.**

4.19 Mae'r Tîm Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth yn gyfrifol am oruchwylio asesiadau ac adolygiadau cymhleth, cefnogi penderfyniadau comisiynu effeithiol, a sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth a llesiant. Mae hwn yn waith heriol sy'n gofyn i'r awdurdod weithio mewn partneriaeth agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a chanlyniadau o ansawdd uchel i unigolion. **Er mwyn gwella profiad pobl ac ymarferwyr, dylai'r awdurdod lleol barhau i gryfhau trefniadau asesu, adolygu a llywodraethu er mwyn sicrhau bod pecynnau gofal a chymorth cymesur yn cael eu cymeradwyo cyn gynted â phosibl drwy brosesau asesu cadarn a phrosesau goruchwylio effeithiol gan y rheolwyr.**

4.20 Nododd gofalwyr fod llawer o'r gwasanaethau atal yn ymatebol ac yn effeithiol wrth gefnogi eu llesiant. Mae'r awdurdod lleol wedi cydgynhyrchu cynllun gwella ar y cyd â gofalwyr a chafwyd cynnydd yn nifer yr asesiadau gofalwyr sy'n cael eu cwblhau. Fodd bynnag, mae gofalwyr yn parhau i roi gwybod am anawsterau wrth gael gafael ar gymorth gwaith cymdeithasol, gan gynnwys oedi wrth gynnal adolygiadau, heriau wrth gysylltu â gwasanaethau, dryswch ynghylch llwybrau cymorth, ac anghysondebau o ran mynediad at asesiadau gofalwyr a darpariaeth seibiant. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r materion hyn, ac roedd gofalwyr yn canmol y cyswllt diweddar gan Bennaeth y Gwasanaeth ynghylch gwelliannau. **Rhaid i'r arweinwyr sicrhau y caiff gofalwyr gynnig asesiadau yn unol â'r gofynion statudol a dylent barhau i gryfhau llwybrau fel y gall gofalwyr gael gafael ar gymorth amserol, cydlynol ac effeithiol sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u hamgylchiadau personol a'r hyn sy'n bwysig iddynt.**

4.21 Roedd ffocws asesiadau ar wydnwch pobl, eu cryfderau personol a'u rhwydweithiau cymorth yn amrywio. Gall hyn gyfyngu ar chwilfrydedd

proffesiynol ynghylch cynaliadwyedd trefniadau cymorth a'r potensial y gallai anghenion neu risgiau waethygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth lunio cynlluniau wrth gefn ac mae'r ymarferwyr yn aml yn cyfeirio unigolion at wasanaethau cyffredinol, heb ganolbwyntio digon ar anghenion yr unigolyn hwnnw. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r trefniadau asesu a'r trefniadau ar gyfer cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi'n gynnar a bod camau ataliol yn cael eu hystyried.**

**Llesiant**

**Cryfderau**

4.22 Mae'r dangosyddion perfformiad ar draws gofal cymdeithasol i oedolion yn gadarnhaol, ac mae cryfderau i'w gweld o ran amseroldeb asesiadau, canlyniadau ail-alluogi a llai o ddibyniaeth ar ofal preswyl hirdymor.

4.23 Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos lefel uchel o hyder yn y trefniadau diogelu, gyda phob aelod o'r staff a ymatebodd yn cytuno bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae diogelu yn faes **ymarfer cadarnhaol** ac mae'r ymarferwyr yn darparu ymatebion cymesur ac amserol i risgiau, wedi'u cefnogi gan drefniadau cydweithio amlasiantaethol a ffocws cyson ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

4.24 Mae'r arweinwyr wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau'r ymarfer diogelu drwy ffrydiau gwaith pwrpasol sy'n canolbwyntio ar risgiau allweddol, gan gynnwys hunan-esgeulustod, camfanteisio, hunanladdiad a hunan-niweidio, ochr yn ochr â dulliau mwy cyson o asesu risgiau. Dylai'r **ymarfer cadarnhaol** hwn gynyddu lefelau hyder proffesiynol, gwella cysondeb wrth wneud penderfyniadau, a helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn mewn modd amserol ac effeithiol.

4.25 Mae'r grŵp "Dweud Ein Dweud" yn darparu fforwm cynhwysol lle mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cefnogi i rannu eu barn, dylanwadu ar weithgareddau a gwella eu dealltwriaeth o'r broses ddiogelu a'u hawliau. Mae'r staff yn dangos cydberthnasau adeiladol, llawn ymddiriedaeth ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu wedi'u teilwra, gan gynnwys iaith arwyddion a chofnodion darluniadol hygyrch. Roedd y dull arloesol hwn yn galluogi pobl ag amrywiaeth o anghenion cyfathrebu i ddeall trafodaethau, ailystyried penderfyniadau a theimlo perchnogaeth dros waith y grŵp. Mae hon yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** sy'n dangos ymrwymiad yr awdurdod lleol i sicrhau y gall pobl gymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

4.26 Mae trefniadau sicrhau ansawdd wedi'u hymsefydlu'n gadarn ac roedd y staff yn eu canmol, gyda 92% o'r staff a holwyd yn nodi bod ganddynt hyder yn eu heffeithiolrwydd. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi adnoddau pwrpasol ym maes sicrhau ansawdd ac wedi datblygu fframwaith cynhwysfawr a gefnogir

gan archwiliadau rheolaidd a chylchoedd ansawdd[2]. Mae cyfleoedd o hyd i ddangos yn fwy cyson sut mae gweithgareddau sicrhau ansawdd yn arwain at welliannau mesuradwy o ran ymarfer, darparu gwasanaethau a chanlyniadau i bobl. Serch hynny, mae sicrhau gwelliant parhaus yn flaenoriaeth glir i'r awdurdod, ac mae wedi neilltuo capasiti ac arweinwyr ymroddedig i'r broses.

4.27 Mae'r trefniadau rheoli ariannol yn effeithiol, ac mae'r awdurdod lleol wedi dangos gallu i reoli adnoddau mewn ffordd gynaliadwy gan barhau i ymateb i gynnydd yn y galw. Mae'r arweinwyr yn cydnabod yr angen am dwf parhaus o ran gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ac maent wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol i gryfhau gwasanaethau ac ymateb i'r pwysau a nodwyd. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth gorfforaethol glir o'r galw yn y dyfodol, heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a phwysigrwydd buddsoddi mewn gwydnwch a gwelliannau hirdymor i'r gwasanaeth.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.28 Nododd y staff anawsterau wrth rannu gwybodaeth gan nad yw systemau TGCh bob amser yn gweithio'n effeithiol ar draws sefydliadau. Mae arweinwyr lleol a rhanbarthol yn gwella'r trefniadau rhannu gwybodaeth i gryfhau'r gallu i weithio mewn partneriaeth a helpu i sicrhau bod pobl yn cael cymorth cydlynol ac amserol. **Dylai'r arweinwyr barhau i adolygu amseroldeb ac effeithiolrwydd y rhaglenni hyn a'r graddau y maent yn llwyddo i wella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl.**

4.29 Roedd asesiadau galluedd meddyliol ac asesiadau lles pennaf yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar y cyfan, roeddent yn cynnwys tystiolaeth dda ac yn dangos bod prosesau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i ymgynghori, eirioli ac ystyried risgiau. Fodd bynnag, nododd yr arolygwyr enghreifftiau lle nad oedd asesiadau galluedd meddyliol wedi cael eu cwblhau lle roedd eu hangen neu lle nad oeddent yn ddigon penodol i sicrhau penderfyniadau cadarn. Roedd yna achlysuron hefyd lle nad oedd penderfyniadau lles pennaf wedi cael eu hailystyried yn sgil newidiadau i amgylchiadau'r unigolyn. Er bod gan yr awdurdod lleol drefniadau ar waith i nodi ac adolygu achosion posibl o amddifadu o ryddid, canfu'r arolygwyr rywfaint o amrywiaeth wrth gydnabod, adolygu a goruchwylio'r cyfyngiadau mewn modd amserol. Mae hyn yn dangos y gellid gwella llythrennedd cyfreithiol, chwilfrydedd proffesiynol a phrosesau goruchwylio'r rheolwyr er mwyn sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cael eu cymhwyso'n gyson. **Dylai'r awdurdod lleol wella'r systemau ar gyfer nodi lle bo angen mesurau diogelu cyfreithiol a lle bo angen i uwch-aelodau o staff fwrw golwg dros benderfyniadau cymhleth neu ddadleuol er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu huwchgyfeirio a'u llywodraethu mewn modd amserol. Dylai hyn gynnwys ffocws ar gryfhau ymarfer ac ar sicrhau bod asesiadau galluedd sy'n gysylltiedig â**

[2] Prosesau ar gyfer adolygu canfyddiadau sicrhau ansawdd, nodi gwersi, a defnyddio'r gwersi hyn i wella ymarfer.

**phenderfyniadau penodol yn cael eu cwblhau'n gyson a bod penderfyniadau lles pennaf yn cael eu cofnodi'n glir, eu hadolygu'n rheolaidd, a'u diweddaru wrth i amgylchiadau newid.**

4.30 Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei drefniadau panel[3], gyda chylch gorchwyl sy'n canolbwyntio'n gynyddol ar sicrhau ansawdd a hyrwyddo egwyddorion ymarfer yr awdurdod. Mae paneli yn cynnig cyfle ar gyfer gwaith craffu a dysgu gwerthfawr, gan helpu i wella ymarfer a phrosesau llywodraethu. Mae gan rai ymarferwyr amheuon o hyd ynghylch dull gweithredu'r paneli, gan feddwl tybed a allai'r dulliau fod yn fwy effeithlon ac adeiladol. **Dylai'r arweinwyr barhau i werthuso effeithiolrwydd newidiadau i baneli a sicrhau bod y dulliau gweithredu yn cefnogi ymarfer cyson, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.**

**Partneriaeth**

**<u>Cryfderau</u>**

4.31 Mae MASH Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gwasanaethau diogelu gan yr awdurdod lleol a phartneriaid, ar ffurf pwynt cyswllt unigol ar gyfer pob pryder diogelu newydd. Mae hyn yn golygu y gellir rhannu gwybodaeth, cynnal dadansoddiadau a gwneud penderfyniadau ar sail amlasiantaethol mewn modd amserol.

4.32 Roedd partneriaid diogelu yn canmol ansawdd cydberthnasau gweithredol ac mae atgyfeirwyr yn derbyn adborth yn gyson yn dilyn atgyfeiriadau. Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno llinell ymgynghori sy'n gwella'r broses o rannu gwybodaeth a chydberthnasau ag atgyfeirwyr. Mae'r partneriaid yn disgrifio **diwylliant cadarnhaol** sy'n hyrwyddo perchnogaeth a rennir, proses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a ffocws ar angen yn hytrach na chymhwysedd.

4.33 Mae'r trefniadau gweithio integredig yn gryfder sylweddol ac maent yn cefnogi ymatebion cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Mae trefniadau partneriaeth aeddfed (gan gynnwys cytundebau Adran 33 a'r System Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch) yn darparu proses lywodraethu ar y cyd, atebolrwydd clir a phrosesau goruchwylio effeithiol o'r ffordd y caiff gwasanaethau integredig eu darparu. Mae manteision integreiddio yn arbennig o amlwg yn sgil cydleoli MASH, gwasanaethau gofal a chymorth byrdymor a hirdymor, y timau iechyd meddwl, anabledd dysgu a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yn golygu y gellir rhannu gwybodaeth mewn modd amserol, gwneud penderfyniadau ar y cyd a rheoli risgiau mewn modd cydlynol.

[3] Mae panel yng nghyd-destun gwasanaethau cymdeithasol yn darparu fforwm ar gyfer goruchwylio'r broses o wneud penderfyniadau a rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd ymarfer.

4.34 Mae'r staff a'r partneriaid yn disgrifio cydberthnasau proffesiynol adeiladol a diwylliant o gydweithio yn gyson, sy'n cyfrannu at sicrhau bod gwasanaethau yn gweithredu'n effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gryfhau ei fodel integredig drwy bartneriaethau ag adnoddau cymunedol ac ataliol, gan gynnwys partneriaethau agos â Theleofal, cymdeithas Alzheimer, a'r gwasanaeth iechyd meddwl Cynorthwyo gydag Adfer yn y Gymuned (ARC).

4.35 Mae'r partneriaethau â Charchar y Parc yn faes **ymarfer cadarnhaol** nodedig sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth. Mae'r trefniadau diogelu a'r trefniadau gweithredol yn cefnogi prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol, ymatebion cydlynol i risgiau a pharhad cymorth i bobl sydd yn y ddalfa a'r rhai sy'n pontio i'r gymuned. Mae'r trefniadau hyn yn cryfhau gallu'r awdurdod lleol i ymateb i fregusrwydd, pryderon diogelu ac amgylchiadau cymhleth.

4.36 Mae cyfarfodydd amlddisgyblaethol integredig yn dod â gweithwyr iechyd, gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ynghyd i adolygu achosion cymhleth ar y cyd, cydlynu ymyriadau, cynnal gwaith goruchwylio risgiau a rhannu gwybodaeth gyd-destunol. Mae rhanddeiliaid yn disgrifio cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn gyson fel maes **ymarfer cadarnhaol** sy'n cefnogi prosesau effeithiol ar gyfer cyfathrebu, cynnal ymyriadau cyd-destunol, a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

4.37 Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth ddatblygedig o anghenion presennol y boblogaeth a'i hanghenion yn y dyfodol ac mae wedi rhoi strategaethau comisiynu clir ar waith i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad i gryfhau capasiti yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar dai gofal ychwanegol, gofal nyrsio arbenigol, a llety a chymorth yn y gymuned. Mae'r adran gomisiynu a'r uwch-arweinwyr wedi rhoi **ymarfer cadarnhaol** ar waith ac wedi meithrin cydberthnasau adeiladol â darparwyr a sefydliadau’r trydydd sector, gan gefnogi dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i bobl. Mae darparwyr yn teimlo bod yr awdurdod yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi fel partneriaid a gwnaethant ganmol hygyrchedd comisiynwyr. Mae'r trefniadau hyn yn gwella lefelau hyder ym mhob rhan o'r sector ac yn cefnogi deialog barhaus ynghylch digonolrwydd ac ansawdd gwasanaethau.

4.38 Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi gwella'r trefniadau pontio ar gyfer pobl ifanc ag anabledd, gan gynnwys cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Gwasanaethau i Oedolion i annog gwaith cynllunio cynnar. Mae'r arweinwyr yn gwella'r trefniadau i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r llwybrau pontio sefydledig. Mae hyn yn cynnwys ffocws strategol ar ddiogelu trawsnewidiol, niwed y tu allan i'r teulu ac achosion o gamfanteisio ar oedolion agored i niwed.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.39 Mynegodd sefydliadau a darparwyr yn y trydydd sector ddymuniad i wneud mwy ar y cyd a nodwyd cyfleoedd i gryfhau prosesau cydlynu strategol, arloesedd a phrosesau cydweithio ar draws y system gofal a chymorth ehangach. **Dylai'r arweinwyr barhau i gryfhau partneriaethau strategol gyda darparwyr a sefydliadau'r trydydd sector i wella faint o weithredu ar y cyd, arloesi ar y cyd a chydweithio a geir ar draws y system.**

4.40 Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrannwr pwysig at ddatblygiadau rhanbarthol ac mae wedi chwarae rhan flaenllaw wrth roi trefniadau integreiddio a diogelu ar waith ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Er bod gweithio mewn partneriaeth yn gryfder sylweddol, ceir cyfleoedd o hyd i wella rhai meysydd ymarfer pwysig. Mae hyn yn cynnwys Gofal Iechyd Parhaus, mynediad at wasanaethau arbenigol i bobl nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau Haen 3[4], a darparu gwasanaethau trawsffiniol i bobl ag Anabledd Dysgu. Gall y materion hyn effeithio ar fynediad amserol at gyllid, cymorth arbenigol a gofal cydlynol i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r heriau hyn ac yn croesawu'r rhaglen gwella genedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus a gwaith parhaus Grwpiau Gweithredu Lleol i hyrwyddo gwelliant. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i gydweithredu â phartneriaid i wella cyflymder ac effaith gweithgarwch gwella.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.
- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 34 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u

[4] Gwasanaethau sydd wedi'u cydleoli â thimau iechyd arbenigol.

holrhain. Gwnaethom edrych ar 31 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain tri.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy alwadau ffôn, cyfweliadau, grwpiau ffocws ac arsylwadau â 31 o bobl sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, grwpiau ffocws ac arsylwadau â 102 o gyflogeion yr awdurdod lleol a staff o sefydliadau partner.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |